

## CYNGOR CYMUNED EGLWYS BACH - COFNODION CYFARFOD 07/12/2015

**PRESENNOL:** Cynghorwyr: Ceri Leeder, Austin Roberts, Katherine Himsworth, Wendy Martin, Richard Newsham, Arthur Williams, Dawn Williams, John Lloyd Williams, Gwyn M Jones.

1. **CROESO:** Croesawodd y Cadeirydd, Ceri Leeder, bawb i'r cyfarfod.
2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Gwyn Williams.
3. **DATGAN DIDDORDEB:** Cyng. Wendy Martin – eitem 6 – Cais Cynllunio - Berllan Eirian;  
Cyng. Gwyn M Jones - eitem 6 - Cais Cynllunio - Tir ar bwys Bodlondeb, Trofarth.
4. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** cafwyd cofnodion cyfarfod 02/11/15 yn gywir a fe'u harwyddwyd.
5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION:**

Noson Tân Gwyllt - cafwyd noson lwyddiannus arall gydag arddangosfa wych o dân gwyllt. Cost y noson i'r Cyngor Cymuned oedd £413.76. Cytunwyd i ymgeisio am y grant yn gynt flwyddyn nesaf ac i ystyried gosod y bwrdd raffl tu mewn i'r giât. Diolchwyd i'r Cyng. Dawn Williams am ei gwaith.

Croesffordd Hen Efail - y Cyng. John Lloyd Williams i gyfarfod a swyddog o'r Sir i drafod y mater o gael drych.

Gorchymyn Gwyro Llwybr Troed rhif 6 - cafwyd cadarnhad na fydd statws 'llwybr Hiraethlyn' yn cael ei effeithio gan y gwriad; bydd yr ymgeisydd yn sicrhau bod y rhan newydd i fyny at safon ddiogel a rhesymol a bydd y llwybr yn cael ei arwyddo'n glir.

Ymunodd y Cyng. Austin Roberts a'r cyfarfod.

Ci rhydd yn y fynwent - nodwyd bod Swyddog Deddfu Cwn gyda'r heddlu wedi anfon llythyr o rybudd at y perchnogion. Nodwyd hefyd bod ffens newydd wedi cael ei godi.

Materion ffyrdd -

Ffordd Llyn Syberi - y tyllau ger Meddiant Uchaf wedi cael eu cau;

Ffordd Meddiant Isaf i Penrhyd - bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn y dyfodol agos.

Ymunodd y Cyng. Richard Newsham a'r cyfarfod.

6. **CEISIADAU CYNLLUNIO:**

0/42192 - Bryn Barcud, Trofarth LL22 8BW - newid defnydd fflat nain presennol/anecs yn llety gosod hunangynhwysol ar gyfer gwyliau.

Dim sylwadau na gwrthwynebiad.

0/42200 - Berllan Eirian, Eglwys Bach LL22 5UF - bwriad i ddymchwel estyniad unllawr presennol is-safonol a chodi estyniad newydd i ddarparu ystafell wely ychwanegol a chyfleuster ystafell ymolchi.

Dim sylwadau na gwrthwynebiad.

0/42009 - Tir ar bwys Bodlondeb, Trofarth LL22 8BW - ystyried gwybodaeth ychwanegol i'r cais.

Dim sylwadau na gwrthwynebiad.

0/42264 - Pennant Hall, Ffordd Pennant, Eglwys Bach LL28 5UN - amrywio amod rhif 3 y caniatâd cynllunio a roddwyd gan gyfeirnod 0/39479 i ganiatáu defnydd nail a'i fel llety atodol neu lety gwyliau.

Dim sylwadau na gwrthwynebiad.

Penderfyniadau'r Sir ar Geisiadau Cynllunio:

0/42020 - Coed Tyddyn Iolyn, Ffordd Maenan - [uwchraddio mynedfa bresennol] - Gwrthodwyd.

7. **MATERION PENODOL I'W PENDERFYNU:**

Cynllun Graeanu Cymunedol - trafodwyd a chytunwyd i beidio ag ymuno a'r cynllun.

Bwrdd 'Tennis Bwrdd tu allan' - bydd y bwrdd yn cael ei osod ar 07/01/16. Cafwyd cadarnhad bod aelodau Pwyllgor y Neuadd yn fodlon a'r trefniadau cyn belled fod yswiriant digonol mewn lle. Cadarnhaodd y Cyng. Martin mai cytundeb rhwng Cyngor Conwy a Chyngor Chwaraeon Cymru ydyw ac nid y Cyngor Cymuned. Bydd yn cyflwyno adroddiad a'r nifer y defnyddwyr yn unol â gofynion y grant.

Taliadau - Mr Cedric Salter, arddangosfa tân gwyllt - £700.00 (talwyd 10/11/15)  
Mrs Sue Hayward, Glanhau Toiledau - £122.50  
Mrs Einir Jones – cyflog a chostau'r Clerc ar gyfer mis Tachwedd - £150.99  
Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (Treth ar gyflog mis Tachwedd y Clerc) - £31.50  
Mr John Lloyd Williams, Tâl Sexton - £100.00  
Mr Wil Williams, toriad gwair cyn y gaeaf, clirio mwsogl a drain - £435.00

8. **GOHEBIAETH:**

- Proffil Ward Eglwys Bach [ CBSC ]; - nodwyd bod 'diogelwch cymunedol' yn anghywir arno.
- Deddf Teithio Byw (Cymru) 2013 – Ymgynghori ac Arolwg – [www.conwy.gov.uk/teithiollesol](http://www.conwy.gov.uk/teithiollesol) [ CBSC ];
- Newyddion Cyngorau Tref a Chymuned 2015 [ Llyw. Cymru ];
- Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft [ Llyw. Cymru ] - anogwyd pawb i ddarllen rhan 1 o'r bil ynglŷn ag ymuno Cyngorau. O uno gyda Sir Ddinbych, byddem yn mabwysiadu eu dyledion ynghyd a Threth y Cyngor uchel o bosib.

9. **UNRHYW FATER ARALL:**

Ffordd Bryn Hir - nodwyd pryder fod y draeniau yn blocio'n gyson ac y byddai'n syniad cynnal archwiliad o'r draeniau rhwng Llety a'r ail bont er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr priodol. Yn ogystal, mynegwyd pryder fod y pwll dwr sydd ochr arall i'r bont yn erydu ochr yr afon ac y gallai achosi i goeden ddisgyn a difrodi seiliau'r bont.

Trefniadau bysiau - nodwyd dwy sefyllfa beryglus i drigolion y pentref yn ystod amser brig - bws ysgol yn parcio yn y bore ger man parcio Maes Llan a'r bws cyhoeddus 3 o'r gloch yn mynd i Hen Efail i droi rownd yng nghanol prysurdeb plant yn dod o'r ysgol.

Materion ffyrdd - nodwyd fod y canlynol angen sylw:

Ffordd Eglwys Bach - dwr yn casglu wrth dro Clwt Cottages;

llanast angen ei glirio rhwng yr Ysgol a Hen Efail;

Ffordd Maenan - ffosydd angen eu hagor rhwng Cefn Coed Ucha a chroesffordd Ty'n y Bryn;

Ffordd Llyn Syberi - angen sweeper ar ei hyd;

Ffordd Cae Forys - ffosydd angen eu hagor rhwng Cae Forys a Toppan.

Yn ogystal, yn dilyn y glaw trwm diweddar, mae angen clirio draeniau'r ardal.

Cludiant Ysgol i Ysgol Dyffryn Conwy - cafwyd cais i'r Sir egluro beth yw'r trefniadau cludiant pan fo'r bont ar gau yn Llanrwst oherwydd llifogydd.

Siop y Llan/Swyddfa Bost - eglurodd y Cyng. Ceri Leeder y bydd y siop yn cau ym mis Chwefror. Pe byddai modd adleoli'r Swyddfa Bost byddai ar gytundeb o 5 mlynedd. Trafodwyd a chytunwyd i'r Cyng. Leeder drefnu cyfarfod cyhoeddus yn y pentref ym mis Ionawr er mwyn cael gweld beth yw teimlad trigolion y Gymuned ynglŷn â'r mater. Y Cyng. Leeder i gysylltu gyda Phwyllgor y Neuadd i drafod syniadau a cheisio cael swyddog o'r Swyddfa Bost i fynychu'r cyfarfod.

Llongyfarchwyd y Cyn. Austin Roberts ar gael ei ethol yn Gynghorydd Sir dros Eglwys Bach, Maenan a Llanddodged.

10. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:** nos Lun 04/01/2016 am 7:30 o'r gloch.